

Fersiwn		CY3
Dyddiad Diwethaf	Diwygio	Chwefror 2020

Y Berthynas Waith
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Employee Relations
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

Cynllun **Adleoli**

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	Cynllun Adleoli
Adran	Adnoddau Dynol
Ffôn	01443 444502 01443 444503
Dyddiad Cychwynol Cyflwyno'r Polisi	Rhagfyr 1998
Swyddog Adolygu	Grŵp Diwygio Polisiâu
Dyddiad Diwygio	Medi 2016
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Medi 2016
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Medi 2006	Alison Cade, Peter Cushion, Richard Evans
Gorffennaf 2010	Alison Cade, Peter Cushion, Richard Evans
Medi 2016	Grŵp Diwygio Polisiâu
Chwefror 2019	Grŵp Safonau'r Gymraeg AD
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol	Medi 2016
Carfan y Rheolwyr Corfforaethol	
Cabinet	

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae fformatau eraill ar gael ar gais.

CYNNWYS

Details Of Scheme	1-2
Scheme For Relocation	3
Part 1:.....	3
Claim For Lodging Allowance.....	3
Part 2:.....	3
Claim For Travelling Expenses - (As An Alternative To Lodging Allowance)	3
Claim For Resettlement/Disturbance Allowance	4
Part 4:.....	4
Claim For Removal And Storage Expenses When Renting A Property	4-5

1. **MANYLION Y CYNLLUN**

- 1.1 Yn ôl doethineb y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, **GALL** y darpariaethau sydd wedi'u pennu isod gael eu cymhwyso i weithwyr sy'n byw y tu allan i ffiniau daearyddol y Cyngor ar adeg eu penodi ond sy'n symud i fyw o fewn y ffiniau.
- 1.2 Pan fo lwfans yn cael ei ddyrannu, bydd hi'n ofynnol i'r gweithiwr barhau i wasanaethu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol am gyfnod o 2 flynedd o'r dyddiad penodi, fan lleiaf.
- 1.3 Mewn achosion lle mae unigolyn yn ymddiswyddo cyn y cyfnod o ddwy flynedd, bydd disgwyl iddo ad-dalu 1/24 o gyfanswm y lwfans ar gyfer pob mis calendr sydd heb gael ei gwblhau ar ddyddiad terfynu'r gwasanaeth.
- 1.4 Lle bo eithriadau neu amgylchiadau arbennig, y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol fydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â chymhwyso'r cynllun.

1.5 **LWFANS LLETY**

Os yw rhywun newydd ei benodi yn byw mwy na 30 milltir y tu allan i'w ganolfan/swyddfa sefydlog ar adeg ei benodi, bydd e'n gymwys ar gyfer:

NAILL AI:

lwfans llety (hyd at swm wythnosol o £108.97 am gyfnod sydd ddim yn hwy na 6 mis)

NEU

ad-daliad o dreuliau teithio drwy'r dull rhataf hyd at uchafswm y lwfans llety wythnosol am gyfnod sydd ddim yn hwy na 6 mis.

1.6 **LWFANS AILSEFYDLU/TARFU**

I fod yn gymwys i gael eich ystyried, rhaid i'r ailsefydlu gael ei gwblhau cyn pen 12 mis o ddechrau'r swydd.

Mae penodai newydd yn gymwys i ymgeisio am un o'r lwfansau tarfu canlynol os yw'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol yn cytuno â hynny ymlaen llaw:

- (i) Mewn perthynas â phob agwedd ar adleoli, gan gynnwys symud a storio eiddo pan fydd gweithiwr newydd ei benodi yn prynu a gwerthu tŷ, y taliad uchaf posibl fydd £6,000.

NEU

- (ii) Mewn perthynas â phob agwedd ar adleoli, gan gynnwys symud a storio eiddo pan fydd gweithiwr newydd ei benodi yn prynu tŷ, y taliad uchaf posibl fydd £3,500.

NEU

- (iii) Lle bo gweithiwr sydd newydd ei benodi yn dewis rhentu tŷ, bydd ad-daliad llawn yn cael ei roi ar gyfer symud dodrefn a nwyddau cartref (gan gynnwys yswiriant rhesymol) a chostau storio am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf.

1.7 Bydd gwariant yn cael ei ad-dalu o gyflwyno ffurflen gais ffurfiol ynghyd â'r holl dderbynebau.

1.8 Yn achos costau symud, rhaid cyflwyno dau amcanbris i'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol yn gyntaf.

1.9 **Camddefnyddio'r cynllun**

Bydd camddefnyddio'r cynllun yn cael ei ystyried yn weithred o gamymddwyn difrifol a bydd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol yn delio â'r mater yn unol â gweithdrefn ddisgyblu'r Cyngor.

2.0 Mae croeso i weithiwr gyflwyno cais yn Gymraeg neu Saesneg a bydd gohebiaeth wedi hynny yn parchu ei ddewis iaith.

2. CYNLLUN AR GYFER ADLEOLI

Enw: Mae modd cyrchu Cynllun Treuliau'r Cyngor ar wefan RCT Source

Mae manylion ar gael ynglŷn â goblygiadau treth ar: www.hmrc.gov.uk.

CYFEIRIAD LLEOL PRESENNOL: _____

ADRAN: _____

GRADD: _____

RHAN 1: CAIS AM LWFANS LLETY

Cyfnod ar gyfer y lwfans llety.

O: _____ Tan: _____

NIFER YR WYTHNOSAU: _____

LWFANS SY'N CAEL EI HAWLIO: _____ Ddylai'r lwfans ddim bod yn uwch
na £108.97 yr wythnos

RHAN 2: CAIS AM GOSTAU TEITHIO - (DEWIS ARALL I'R LWFANS LLETY)

Cyfnod ar gyfer y costau teithio.

O: _____ Tan: _____

DULL TEITHIO -

Nodwch: Dylech chi hawlio am y dull mwyaf rhad o deithio

TRÊN/BWS/CAR

SWM SY'N CAEL EI HAWLIO:

_____ wythnos ar £ _____ yr wythnos = **cyfanswm o £**

Nodwch: Ddylai'r lwfans ddim bod yn uwch na £108.97 yr wythnos (fel yn achos y Lwfans Llety).

RHAN 3:
CAIS AM LWFANS ADSEFYDLU/TARFU

COSTAU CYFREITHIOL: _____

FFÏOEDD YR ASIANT: _____

COSTAU SYMUD A STORIO: _____

CYFANSWM Y GWARIANT = £ _____

(Rhaid atodi'r holl dderbynebaw ar gyfer y gwariant)

Yn unol â'r Cynllun ar gyfer Adleoli, rwyf drwy hyn yn cyflwyno cais am ad-daliad o £ _____ yn gyfraniad tuag at gyfanswm y costau rwy wedi'u talu mewn cysylltiad â symud tŷ o _____

TRWY HYN byddaf yn parhau i wasanaethu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol am o leiaf 2 flynedd o ddyddiad fy mhenodi ac rwyf yn CYTUNO i ad-dalu 1/24 o'r cyfanswm yma i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ar gyfer pob mis calendr sydd ddim wedi'i gwblhau ar ddyddiad terfynu'r gwasanaeth.

LLOFNOD: _____

DYDDIAD:

RHAN 4:
RHENTU EIDDO - CAIS AM GOSTAU SYMUD A STORIO

Atodaf 2 amcanbris ar gyfer symud a/neu storio fy eiddo personol o'm cartref blaenorol

_____ i'm cyfeiriad presennol / storfa bresennol.

Rwyf yn hawlio ad-daliad o £ _____ sef yr isaf o'r ddau amcanbris er fy mod yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r contractwr rwyf yn ei ddewis.

TRWY HYN bydda i'n parhau i wasanaethu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol am o leiaf 2 flynedd o ddyddiad fy mhenodi ac rwyf yn CYTUNO i ad-dalu 1/24 o'r swm sydd wedi'i roi i mi i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ar gyfer pob mis calendr sydd ddim wedi'i gwblhau ar ddyddiad terfynu'r gwasanaeth.

LLOFNOD: _____

DYDDIAD:

DYLAI'R FFURFLEN YMA, YNGHYD Â'R HOLL DDERBYNEBAU GAEL EU HANFON AT Y:

CYFARWYDDWR MATERION ADNODDAU DYNOL

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
Y PAFILIYNAU, CWM CLYDACH, TONYPANDY, CF40 2XX**

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA YN UNIG:

CAIS WEDI'I GYMERADWYO / HEB EI GYMERADWYO

LLOFNOD:

CYFARWYDDWR MATERION ADNODDAU DYNOL

DYDDIAD:

WEDI'I BROSESU AR GYFER TALU:
